# Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

**Heol y Bardd, Porth Tywyn,**
**Sir Gaerfyrddin SA16 0NL**
**Ffôn:- 01554 832101**
**Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru**
**www.ysgolparcytywyn.co.uk**
**Pennaeth / Headteacher : Mrs A Williams**


29.08.25

Annwyl Riant / Warchodwr,

Mae'n bleser gennyf eich croesawu i'r flwyddyn academaidd newydd. Gobeithiwn eich bod chi fel teulu wedi cael cyfle i ymlacio a mwynhau gwyliau'r haf. Mae holl staff Parc y Tywyn yn llawn brwdfrydedd am y flwyddyn i ddod ac edrychwn ymlaen at groesawu'r disgyblion yn ôl i'r ysgol ar ddydd Mercher 3ydd o Fedi. Mae'r llythyr isod yn amlinellu gwybodaeth bwysig wrth baratoi ar gyfer dechrau'r flwyddyn, ac edrychwn ymlaen at weithio mewn partneriaeth â chi dros y misoedd nesaf.

- **Oriau Newydd yr Ysgol**

O Fedi'r 1af 2025 bydd y diwrnod ysgol newydd fel a ganlyn:

**Amser cychwyn:** 08:50
**Amser gorffen:** 14:50 - Meithrin i Flwyddyn 2
15:05 - Blwyddyn 3 i 6

**Clwb Brecwast** i gychwyn am **08:00**, a bydd drysau'r neuadd yn cau'n brydlon am **08:15**.

**Trefn Gollwng a Chasglu**

- Y brif glwyd yn agor ar gyfer gollwng am 08:40 ac yn cau'n brydlon am 08:50.
- Y brif glwyd yn agor ar gyfer casglu'r Meithrin i Flwyddyn 2 am 14:45 ac yn cau yn brydlon am 15:00.
- Bydd disgyblion o Flwyddyn 3 – 6 yn cael eu casglu o ddrws penodedig ym mlaen yr ysgol (Prif fynedfa, Stiwdio neu'r Neuadd).

****Casglu ar ddiwedd y dydd**** - Os oes gennych blant mewn mwy nag un flwyddyn ysgol sydd yn gorffen ar amseroedd gwahanol, byddwn yn cadw'r ieuengaf a galluogi i chi gasglu pawb am 15:05. Bydd hyn yn eich helpu i osgoi aros am hyd at 15 munud rhwng amseroedd casglu gwahanol.

- **Clybiau ar ôl Ysgol**

Mae Hapus Dyrfa yn trefnu clwb dyddiol ar ôl ysgol am £12, rhwng 15:05 a 17:20. Maent yn cynnig gostyngiad a phris o £7 os mae dim ond tan 16:00 mae angen gofal. Er mwyn trafod a threfnu'r gofal plant gyda Hapus Dyrfa, cysylltwch â nhw trwy ffonio 01554 835754 neu anfon e-bost at admin@hapusdyrfa.com.

Mae'r ysgol yn cynnal clybiau ar Nos Fawrth a Nos Iau, ac rydym yn gweithio gyda chwmnïoedd allanol i gynnig clybiau gyda thal ar Nos Lun a Nos Fercher. Mae fwy o wybodaeth am hyn yn y cylchlythyr.

- **Trefn Dosbarthiadau**

Ar ddiwedd y tymor diwethaf, cawsoch eich gwahodd i sesiwn groeso'r dosbarthiadau. Dyma'r ddolen os rydych am wirio'r wybodaeth bwysig a rhannwyd yn y cyfarfodydd dosbarth yma cyn dydd Mercher.

https://www.ysgolparcytywyn.co.uk/dosbarthiadauclass-pages/

- **Pwysigrwydd Prydlondeb a Presenoldeb**

https://www.ysgolparcytywyn.co.uk/presenoldeb-attendance/

Hoffwn dynnu eich sylw at ymgyrch bwysig fyddwn ni'n parhau i weithredu o'r enw "Pwysigrwydd Prydlondeb a Phresenoldeb - pob disgybl, ar amser, pob dydd". Mae'r diwrnod ysgol yn dechrau am 8:50 o'r gloch a disgwylir i bob plentyn fod ar dir yr ysgol yn brydlon.

Bydd plant sydd yn cyrraedd ar ôl yr amser yma yn gorfod mynd drwy'r brif fynedfa, bydd rhaid I rieni eu llofnodi i mewn ac byddant yn derbyn marc hwyr.

Byddwn yn monitro presenoldeb disgyblion bob hanner tymor ac yn danfon llythyron/e-byst adref yn eich hysbysu os bod eu presenoldeb yn syrthio o dan 92%. Os mae eich plentyn yn sâl rhowch alwad i'r swyddfa er mwyn awdurdodi absenoldeb. Os rydych am drefnu gwyliau yn ystod y tymor, rhaid cwblhau a dychwelyd y ffurflen hysbysiad gwyliau i'r swyddfa cyn mynd ar wyliau. Ni fydd unrhyw wyliau yn cael eu hawdurdodi o hyn allan ond mae rhaid cwblhau y ffurflen.

- **<u>Diogelwch Disgyblion</u>**

Yn dilyn ein cais parhaus llynedd i rieni/gwarchodwyr i ddilyn y rheolau maes parcio er mwyn diogelu'r disgyblion, hoffwn ddechrau'r flwyddyn drwy drafod y rheolau sydd angen i BAWB glynu at:

- Uchafswm 5mya ydy'r cyflymder gallwch yrru ar y safle.
- Nid oes hawl parcio ym maes parcio'r staff (dim ond parcio ar y dde).
- Rhaid dod o hyd i lef ddynodedig i barcio ar y safle.
- PEIDIWCH â pharcio ar y llinellau dwbl melyn.
- Nid does hawl i rieni stopio ar y ffordd unffordd i ollwng eich plentyn.

Bydd staff allan yn gorchwylio'r sefyllfa yn ddyddiol ac yn gofyn i rieni i gadw at y rheolau er mwyn cadw'r maes parcio yn ddiogel i'r disgyblion. Gofynnwn yn garedig i BAWB i sicrhau mae diogelwch ein disgyblion sydd yn dod yn gyntaf eleni. **Sicrhewch eich bod yn rhannu'r neges uchod gyda phob person sydd yn gollwng neu gasglu eich plentyn.**

- **<u>Polisi Drws Agored</u>**

Mae gennym bolisi 'drws agored' yma ym Mharc y Tywyn. Rydym yn gwerthfawrogi adborth a sgwrs onest felly siaradwch â ni yn uniongyrchol bob amser. Mae aelodau o staff wrth y gât ar ddechrau a diwedd y dydd i drafod unrhyw gwestiynau ac os bod materion/pryderon gennych, gallwch drefnu apwyntiad gyda'r athro ar amser sy'n gyfleus i'r ddau barti.

Yma yn yr ysgol, mae gennym grŵp ymroddedig o staff sy'n gweithio'n ddiflino i ddarparu'r cyfleoedd gorau i'ch plentyn. Gyda eich cefnogaeth barhaus, rydym yn ffyddiog bydd eleni yn flwyddyn lwyddiannus arall lle bydd eich plentyn yn cael amryw o gyfleoedd i lwyddo a thyfu. Edrychwn ymlaen yn fawr at gyd-weithio gyda chi dros y flwyddyn nesaf.

Yr Eiddoch,

*A Williams*
Pennaeth / Headteacher